Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

**Paul Scully MP**
Parliamentary Under-Secretary of State

**Department for Business, Energy & Industrial Strategy**
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

T +44 (0) 20 7215 5000
E enquiries@beis.gov.uk W www.gov.uk

**Our ref:** MCB2021/27892

Y Cynghorydd Simon Glyn
Cyngor Gwynedd

Ar ebost: eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

10 Rhagfyr 2021

Annwyl Gynghorydd Glyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd at y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng AS, ynglŷn â'r cynnig ar gydnabod Dydd Gŵyl Dewi yn swyddogol fel gŵyl banc yng Nghymru. Yr wyf yn ymateb gan fod y mater hwn yn dod o fewn fy mhortffolio gweinidogol.

Er ein bod yn gwerthfawrogi bod pobl Cymru am ddathlu eu nawddsant, mae mwy o bobl yn gweithio ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr nag ar draws y ffin rhwng Lloegr a'r Alban. Gallai'r lefel agosach hon o integreiddio achosi mwy o aflonyddwch busnes. Pe bai gennym wyliau banc ar wahân yng Nghymru a Lloegr, mae'n anodd rhagweld yr effaith ar weithwyr a busnesau.

Er y gallai gŵyl banc ychwanegol fod o fudd i rai cymunedau a sectorau, mae'r gost i'r economi o gael gŵyl banc ychwanegol yn parhau'n sylweddol. Dangosodd asesiad yn dilyn gŵyl banc ychwanegol y Jiwbilî Diemwnt yn 2012 fod gŵyl banc ychwanegol (ledled y DU gyfan) yn costio tua £1.2 biliwn i'r economi.

Mae pob setliad datganoli wedi'i ddatblygu yn erbyn cefndir o wahanol hanesion, systemau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a chyfreithiol. Bydd angen ystyriaethau ar wahân ar ffactorau gwahanol. Efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio mewn un lle yn gweithio i un arall ac ni ddylem dybio mai datganoli yw'r ateb cywir oherwydd bod y mater wedi'i ddatganoli mewn mannau eraill.

Am y rheswm hwn, nid oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid y trefniadau sydd wedi'u hen sefydlu a'u derbyn ar gyfer gwyliau banc yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio â'r holl Weinyddiaethau Datganoledig i sicrhau bod sefydliadau'r DU yn gweithio ar y cyd fel un Deyrnas Unedig. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith agos parhaus gyda Llywodraeth Cymru, gan barchu eu natur ddatganoledig hefyd, gan sicrhau ein bod yn adeiladu economi gref a mentrus ledled y Deyrnas Unedig.

Diolch eto am gymryd yr amser i ysgrifennu atom.

Yn gywir,



**PAUL SCULLY AS**
Y Gweinidog dros Fusnesau Bach, Defnyddwyr a Marchnadoedd Llafur
Gweinidog Llundain